



**LLYFR COFNODION RHEOLI  
WLBP  
AR GYFER CYNLLUN FAWL**

<b>Enw'r Fferm</b>	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Rhif Fawl:</b>	<b>Rhif Ffôn:</b>

## Gwybodaeth Gyswllt:

Cyfeiriad y Fferm:

Enw'r Cyswllt:

Rhif Ffôn y Fferm:

Cod Post:

Rhif Symudol y Cyswllt:

Cyfeirnod map y fferm:

Rhif CPH y Fferm:

Lleoliad y ffôn agosaf:

Sut i gyrraedd y fferm:

Lleoliad y cyflenwad dŵr amgen nesaf

Lleoliad y manau arwahanu:

Lleoliad y cyfleusterau golchi

Nwy:

Trydan:

Lleoliad y cyfarpar diffodd tân

Dŵr:

Lleoliad silindrau nwy, tanciau tanwydd ac unrhyw sylweddau fflamadwy iawn (er enghraifft, gwrteithiau)

Lleoliad unrhyw sylweddau cyrydol, gwenwynig neu sylweddau niweidiol eraill (plaleiddiaid, paent, asid)

## \* Y rhain yw'r manylion cywir adeg argraffu

Adran (1) – Rhestr Cysylltau Ffôn Brys		
Cyswllt	Rhifau Ffôn	
Meddyg:		
Yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys agosaf mewn Ysbyty		
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch*:	Llinell Wybodaeth 0845 300 9923	
Asiantaeth yr Amgylchedd	Llinell Frys Digwyddiad 0800 807060 Gwasanaeth Llinell Llifogydd 08459881188 Ymholiadau Cyffredinol 08708 506 506	
Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA)		
Rhif Brys Cwmni Trydan:		
Rhif Brys Cwmni Cyflenwi Nwy:		
Rhif Brys Cwmni Cyflenwi Dŵr:		
Milfeddyg:		
Cynhyrchwyr Llaeth:	Enw	Rhif ffôn
Manylion cyswllt Prynwyr Llaeth:		
Peiriannydd Swmpdanc Llaeth		
Peiriannydd Parlwr Godro		

**Adran (2) – Cofnod Hyfforddi**

Dyddiad	Enw'r person a hyfforddwyd	Profiad/ Pwnc Hyfforddiant	Enw'r hyfforddwr/cwrs

**Adran (3) Profforma cofnod cwynion:**

Cofnodwch unrhyw gŵyn, e.e. anifeiliaid brwnt, achos o lygredd yn erbyn y fferm.

Dyddiad	Natur y gŵyn:	Derbyniwyd gan:	Camau a gymerwyd:



## Adran (4) – Polisi Rheoli Fermin

### Camau rheoli yn cael eu mabwysiadu:

- Yr holl fwydydd mewn cydau i'w cadw mewn pentwr taclus ar baledi oddi ar y llawr a heb gyffwrdd â'r waliau
- Yr holl fwyd sy'n gollwng o dan y biniau bwyd i gael ei ysgubo a'i gymryd i ffwrdd
- Y bwyd sy'n cael ei storio'n rhydd ar y llawr neu mewn bynceri yn cael ei orchuddio oni bai fod yr holl adeilad yn ddiogel rhag fermin
  
- Bydd abwydau dros dro yn cael eu harchwilio bob wythnos a bydd abwydo'n parhau am wythnos ar ôl i'r abwydau gael llonydd
- Bydd abwydau parhaol yn cael eu harchwilio bob pythefnos. Os bydd arwyddion fod yr abwyd yn cael ei gymryd, bydd rhagor o abwyd yn cael ei osod a bydd yr adeilad yn cael ei archwilio eto
- Bydd abwydau'n cael eu gosod yn ddiogel rhag rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu a lle nad ydynt yn halogi bwydydd
  
- Bydd manau storio bwyd yn cael eu harchwilio'n rheolaidd ar gyfer plâu
- Bydd yr holl lygod marw sy'n cael eu darganfod yn cael eu gwaredu
  
- Gosodir yr abwyd fel nad oes modd i blant ac anifeiliaid eraill ei gyrraedd
- Bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i symud yr holl ysbwriel a llystyfiant sydd wedi gordyfu o'r tu allan i'r adeiladau, a bydd yr holl chwyn a glaswellt yn cael eu cadw'n fyr
  
- Bydd yr holl dyllau'n cael eu cau pryd bynnag y bo modd. Ni fydd y rhwyll wifrog ar y ffenestri yn fwy na 6 mm fel bod modd cadw llygod allan, a bydd y bylchau rhwng waliau, lloriau a nenfydau wedi'u selio
- Bydd sestonau dŵr a thanciau cyflenwi wedi'u selio
- Bydd hen waith plymio yn cael ei waredu a'r tyllau'n cael eu selio

Bl 1	Dyddiad:	Llofnodwyd:
Bl 2	Adolygwyd:	Llofnodwyd:
Bl 3	Adolygwyd:	Llofnodwyd:
Bl 4	Adolygwyd:	Llofnodwyd:

## Adran (5) – Polisi ynglŷn â Storio a Gwaredu Eitemau Miniog a Gwastraff Fferyllol a Nodwyddau wedi Torri

### (a) Storio a Gwaredu Eitemau Miniog a Gwastraff Fferyllol

- Cyn ei waredu, bydd pob gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel mewn cynhwysydd diogel ac anhyblyg sydd â symbolau rhybudd priodol.
- Bydd y cynhwysydd a'i gynnwys yn cael eu gwaredu wrth:

(Disgrifiad o'r lle a sut bydd cynhwysyddion gwastraff yn cael eu gwaredu)

- Bydd labeli, deunydd pacio a deunydd darllen yn cael eu harchwilio cyn gwaredu gwastraff fferyllol er mwyn darganfod a oes cyfyngiadau ynglŷn â'r dull o waredu.
- Bydd yr holl staff yn ymwybodol o'r camau sy'n cael eu cymryd i reoli gwastraff.
- Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu wrth brynu faint o feddyginiaeth sydd ei hangen yn unig.
- Os oes amheuaeth, byddwch yn ymgynghori â'r milfeddyg.

### (b) Polisi Nodwyddau wedi Torri:

- (1) Os digwydd i nodwydd wedi torri gael ei gadael mewn anifail yn ystod triniaeth, byddwn:
  - yn marcio'r anifail mewn ffordd amlwg a pharhaol fel ei bod yn hawdd ei adnabod
  - yn cofnodi dyddiad y digwyddiad, y manylion adnabod a'r dull o adnabod
  - yn cofnodi lle gwnaed y pigiad pan dorrodd y nodwydd
  - yn anfon yr anifail, pan gaiff ei waredu, yn syth i gael ei ladd, yn hytrach na'i werthu i gynhyrchwr arall.
- (2) Bydd y symud / dull o waredu yn cael ei gofnodi yn y llyfr cofnodion buches / diadell.
- (3) Os yw'r anifail yn cael ei gadw ar gyfer magu neu'n cael ei gadw am dros 7 diwrnod, bydd ei statws iechyd yn cael ei archwilio'n gyson.
- (4) Bydd yr anifail yn cael ei farchnata ond o fewn 7 diwrnod os yw'r cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd ar gyfer y sylwedd yn y pigiad yn caniatáu hyn.
- (5) Caiff yr anifail ei anfon i ladd-dy ynghyd â thystysgrif lladd brys gan filfeddyg yn rhoi manylion am leoliad y pigiad.
- (6) Bydd lleoliad y pigiad â'r nodwydd wedi torri yn cael ei farcio ar yr anifail cyn ei anfon i ffwrdd.
- (7) Os yw'r anifail; yn cael ei farchnata ar ôl 7 diwrnod, caiff ei anfon i ladd-dy, a hysbysir y lladd-dy yn ysgrifenedig am y nodwydd wedi torri, lleoliad y pigiad a'r dyddiad perthnasol. Bydd lleoliad y pigiad â'r nodwydd wedi torri yn cael ei farcio ar yr anifail cyn ei anfon i ffwrdd.
- (8) Os yw'r anifail yn cael ei gadw ar gyfer defnydd cartref, bydd gofal yn cael ei gymryd i osgoi'r nodwydd wedi torri; fel arall, defnyddir ewthanasia.
- (9) Ni fydd gwartheg a defaid yn cael eu marchnata fel anifeiliaid gwarant fferm oni fydd y camau uchod yn cael eu cymryd.

Llofnodwyd:..... Dyddiad:.....

## Adran (6) – Datgan Gwarantiad

**Mae'r Atodiad yn darparu llythyr 'Gwarantiad' drafft i roi gwybodaeth gan y gwerthwr ynglŷn â diogelwch, ansawdd ac olrheindedd bwydydd sy'n cael eu cyflenwi gan ffynonellau neu gadwyni cyflenwi diwarant.**

Ni chaniateir y llythyr gwarantiad drafft hwn ond ar gyfer –

- Cyflenwi porfwydydd neu amnewidion porfwyd (e.e. silwair, gwair, gwreiddlysiau, isgynhyrchion gwreiddlysiau, cnydau porfwyd lle maent yn tyfu)
- Cyflenwadau o fferm i fferm o rawnfwydydd neu godlysiau cartref
- Cyflenwadau o fferm i fferm o fwydydd cymysg, cyfansoddion neu unrhyw ddefnyddiau bwyd nad oes eu hangen ar y fferm.\*

\* Nid yw dilysrwydd y llythyr gwarantiad hwn yn cynnwys cyfansoddion, bwydydd cymysg neu ddefnyddiau bwyd sy'n cael eu prynu yn unswydd i'w hailwerthu'n syth neu ar ôl eu cymysgu. Rhaid i ffermwyr sy'n gwneud hyn gofrestru fel masnachwyr neu wneuthurwyr bwyd cyfansawdd a chydymffurfio â gofynion priodol UFAS.

Ar ôl ei gwblhau, rhaid i'r llythyr gael ei lofnodi a'i ddyddio a rhaid i'r cyflenwr bwyd ei ddychwelyd at y ffermwr. Rhaid i gyfeiriad y cyflenwr bwyd gael ei ddatgan yn glir. Gall y llythyr fod yn ddilys ar gyfer dosbarthu'r un defnydd am hyd at 12 mis o ddyddiad y llofnod.

### LLYTHYR DRAFFT

**Oddi wrth:** .....

(Enw a chyfeiriad y cyflenwr)

**Dyddiad:** .....

**At:** ..... [Y ffermwr sy'n derbyn]

Ynglŷn â: Cyflenwi ..... [nodwch y math o fwyd]

#### Datganiad Gwarantiad:

- Mae'r bwyd hwn yn addas i'w ddefnyddio gan dda byw ac ystyrir ei fod yn iachusol a heb gynnwys unrhyw halogyddion hysbys.
- Cafodd y bwyd hwn ei storio, ei drafod a'i gludo mewn modd a oedd yn lleihau'r risg o halogiad gan blâu neu bethau eraill, a chafodd safonau hylendid eu cynnal ar lefel sydd yn briodol ar gyfer defnyddiau sydd yn mynd i'r gadwyn fwyd anifeiliaid / pobl.
- Mae modd gweld ein cofnodion ac adeiladau at ddibenion olrheindedd ac archwilio, os gwneir trefniadau ymlaen llaw.

Ar gyfer bwydydd ar wahân i borfwydydd neu wreiddlysiau –

Naill ai

Ticiwch os yw'n briodol

- Nid yw'r grawnfwydydd / codlysiau hyn wedi'u gwarantu o dan gynllun gwarant fferm, ond mae ganddynt basbort grawn sy'n cofnodi manylion unrhyw driniaethau i ladd plâu a gafwyd ar ôl cynaeafu.

Neu

- Mae'r bwyd hwn neu'r defnydd bwyd hwn yn cynnwys bwyd neu ddefnyddiau bwyd cartref a/ neu wedi'u prynu nad oes eu hangen ar y fferm. [DS – Rhaid i unrhyw fwyd neu ddefnydd bwyd a brynwyd fod wedi dod yn wreiddiol o ffynhonnell UFAS, FEMAS neu ffynhonnell debyg ardystiedig.]

Yr eiddoch yn gywir,

..... (Llofnod)

..... (Enw – llythrennau breision)

**PASBORT GRAWN**

CYFLENWR .....

MATH O GNWD (e.e. gwenith, ffa, etc.) .....

ENW'R CLUDWR .....

RHIF COFRESTRU'R CERBYD .....

RHIF ADNABOD Y TRELAR .....

**TRINIAETH LLADD PLÂU AR ÔL CYNAEAFU**

Byddwch cystal â dileu / llenwi adrannau A, B ac C fel y bo'n berthnasol.

- A. Ni roddwyd unrhyw driniaeth â phlaleiddiad i'r cnwd sy'n cael ei gludo yn y cerbyd y cyfeirir ato uchod.
- B. Defnyddiwyd plaleiddiad yn unol â'r lefelau a argymhellir gan y gwneuthurwr ar y cnwd a gludwyd gan y cerbyd y cyfeirir ato uchod.  
Roedd y manylion fel a ganlyn:

DYDDIAD	CYNNYRCH
.....	.....
.....	.....
.....	.....
.....	.....

- C. (Yn berthnasol i rawn wedi'i gymryd o storfeydd swmp) Cafodd y cnwd sy'n cael ei gludo yn y cerbyd y cyfeirir ato uchod ei gymryd o storfa swmp, a chafodd ei gludo gan gyflenwyr a ddatganodd y cafodd ei drin yn rhannol/ yn gyfan gwbl â phlaleiddiad ar ôl ei gynaeafu yn unol â neu yn is na'r lefelau a argymhellir gan y cynhyrchwr fel a ganlyn:

.....

.....

.....

.....

**LLOFNOD**

Llofnodwyd ..... Dyddiad.....

Enw (Llythrennau bras).....

Swydd – Tyfwr / Ceidwad stordy / Arall (nodwch, os gwelwch yn dda).....



## Adran (7) – Cynllun Iechyd a Bioddiogelwch

<b>(a) Cynllun Bioddiogelwch y Fferm</b>		
<b>Manylion am y cyfleusterau cwarantîn/ arwahanu a'r defnydd ohonynt</b>		
	<b>Gwartheg</b>	<b>Defaid</b>
Lleoliad y cyfleuster arwahanu a ddefnyddir i gadw anifeiliaid sy'n sâl neu wedi'u hanafu ar wahân		
Camau bioddiogelwch rheolaidd ar gyfer anifeiliaid amnewid a stôr wedi'u prynu:		
Camau bioddiogelwch rheolaidd ar gyfer anifeiliaid tac sy'n gadael neu'n dychwelyd i'r daliad:		
Camau bioddiogelwch rheolaidd ar gyfer prynu teirw a hyrddod a hurio neu fenthg teirw a hyrddod:		
<b>Tai Da Byw, Glanweithdra a Diheintio</b>		
Y camau sy'n cael eu cymryd i wneud yn siŵr fod tai da byw'n cael eu cadw'n lân, gan gynnwys mynychder eu glanhau a diheintio a'r dull o storio a lleoli gwastraff anifeiliaid		
<b>Storio a Defnyddio Achles</b>		
Y camau sy'n cael eu cymryd i werthuso safleoedd cadw achles a chadw da byw i ffwrdd oddi wrthynt		
Y camau sy'n cael eu cymryd i wneud yn siŵr nad yw da byw yn pori ar dir lle cafodd achles neu slyri ei wasgaru yn ddiweddar		

**Hylendid Ymwelwyr â'r Fferm**

Y camau sy'n cael eu cymryd i wneud yn siŵr nad yw ymwelwyr â'r fferm yn cario haint yn ôl ac ymlaen i'r fferm, e.e. manau diheintio

**Storio Bwyd**

Polisi rheoli fermin os yw'n wahanol i Safon FAWL fel y'i nodir yn Llyfr Cofnodion Rheoli Cynllun FAWL, adran 3

**Bwydo gwartheg â chafnau**

Y camau sy'n cael eu cymryd i geisio atal moch daear rhag cyrraedd cafnau bwyd a dŵr

Y camau sy'n cael eu cymryd i geisio atal moch daear rhag mynd i mewn i adeiladau da byw

**Marwolaethau ac erthyladau nad oes modd eu hesbonio**

Y camau sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â marwolaethau ac erthyladau nad oes modd eu hesbonio

**Rheoli Stoc Trig**

Y dull gwaredu

Y man casglu ar y fferm

**Agosrwydd anifeiliaid cymdogion**

Statws iechyd tybiedig ffermydd cymdogion

Y camau sy'n cael eu cymryd, os tybir bod angen, i leihau ymlediad clefyd neu glefyd posibl o ffermydd cymdogion e.e. ffensys dwbl, brechu

**(b) Cynllun Iechyd Anifeiliaid**

<b>(i) Rheoli Da Byw – Gweithdrefnau Rheolaidd</b>		
<b>Mis:</b>	<b>DEFAID</b>	<b>GWARTHEG</b>
<b>Ionawr</b>		
<b>Chwefror</b>		
<b>Mawrth</b>		
<b>Ebrill</b>		
<b>Mai</b>		
<b>Mehefin</b>		
<b>Gorffennaf</b>		
<b>Awst</b>		
<b>Medi</b>		
<b>Hydref</b>		
<b>Tachwedd</b>		
<b>Rhagfyr</b>		

**(ii) Gweithdrefnau Rheolaidd****Rheoli Parasitiaid – Defaid**

<b>Math o barasit</b>	<b>Triniaeth/dull o reoli</b>	<b>Amseru</b>
<b>Llyngyr y coludd</b>		
<b>Llyngyr yr lau</b>		
<b>Y Clafr</b>		
<b>Llau</b>		
<b>Clêr chwythu</b>		
<b>Arall</b>		



<b>(ii) Gweithdrefnau Rheolaidd – parhad</b>		
<b>Rheoli Parasitiaid – Gwartheg</b>		
<b>Math o barasit</b>	<b>Triniaeth/dull o reoli</b>	<b>Amseru</b>
<b>Llyngyr y coludd</b>		
<b>Llyngyr yr lau</b>		
<b>Llyngyr yr ysgyfaint</b>		
<b>Ectoparasitiaid (gan gynnwys crach)</b>		



**(iii) Polisi Brechu – Defaid**

<b>Math o glefyd</b>	<b>Brechlyn a Ddefnyddiwyd</b>	<b>Amseru</b>
Clefydau Clostridiol		
Pasteurelosis		
Clwy'r traed		
Orff		
Tocsoplasmosis		
Erthylu Ensöotig		
Arall		
<b>Polisi Brechu – Gwartheg</b>		
Ysgothi		
Niwmonia		
Y Clwy Du / Tetanws		
Llyngyr yr ysgyfaint		
Leptosbirosis		
BVD		
IBR		
Arall		





<b>(v) Targedau ar gyfer gwella iechyd anifeiliaid yn y flwyddyn ganlynol:</b>		
<b>Y Fenter Wartheg</b>	<b>1</b>	
	<b>2</b>	
	<b>3</b>	
	<b>4</b>	
<b>Y Fenter Ddefaid</b>	<b>1</b>	
	<b>2</b>	
	<b>3</b>	
	<b>4</b>	
<b>Sylwadau eraill</b>		
<b>BI 1</b>	<b>Dyddiad:</b>	<b>Llofnodwyd:</b>
<b>BI 2</b>	<b>Adolygwyd:</b>	<b>Llofnodwyd:</b>
<b>BI 3</b>	<b>Adolygwyd:</b>	<b>Llofnodwyd:</b>
<b>BI 4</b>	<b>Adolygwyd:</b>	<b>Llofnodwyd:</b>





### Adran (8) – Cynllun Rheoli Achles

Bydd Cynllun Rheoli Achles yn helpu i ddarganfod pryd, lle ac i ba raddau y dylid gwasgaru achlesau, slyri, dŵr brwnt ac unrhyw wastraff organig arall. Bydd o fantais i gynhyrchwyr a bydd hefyd yn lleihau'r risg o achosi llygredd. Yn ogystal, bydd yn helpu cynhyrchwyr i weld a oes ganddynt ddigon o le storio.

**Bydd angen i aelodau FAWL allu dangos lle a phryd y gall Achles gael ei wasgaru a dangos fod yna ddigon o dir ar gael i wasgaru achlesau heb fynd dros y terfyn o 250kg o Gyfanswm Nitrogen yr hectar y flwyddyn. (Gall y bydd cyfraddau is yn berthnasol i Barthau Perygl Nitrogen).**

Cam 1: Map – **Byddwch â map o'r fferm yn barod.**

Cam 2: Marciwch (a) ffosydd, cyrsiau dŵr, pyllau (b) manau lle nad oes gwasgaru (c) manau lle na ddylid gwasgaru (d) manau â risg uchel (e) manau â risg uchel iawn a (f) manau â risg isel ar y map. Gwnewch amcangyfrif o gyfanswm arwynebedd pob rhan a chynhwyswch allwedd i ddangos pryd gall achlesau gael eu gwasgaru. (Bydd codau lliw yn help i symleiddio'r cyfan)

Beth	Ble	Arwynebedd lle gellir gwasgaru (Ha)	Pryd
Dŵr (GLAS)	Unrhyw ffosydd, cyrsiau dŵr a phyllau Hefyd tardellau, ffynhonnau neu ddyfrdyllau lle defnyddir dŵr i'w yfed gan bobl neu mewn llaethdai ffermydd, gan gynnwys unrhyw ddŵr ar dir cymydog sy'n agos at ffin y fferm.	amherthnasol	PEIDIWCH Â GWASGARU
Mannau lle nad oes gwasgaru (GWYN)	Caeau lle na fyddai achles yn cael ei wasgaru fel arfer; caeau nad ydynt yn cael eu ffermio, coetiroedd neu gaeau sy'n rhy bell oddi wrth yr adeiladau fferm.	amherthnasol	PEIDIWCH Â GWASGARU
Mannau lle na ddylid gwasgaru (COCH)	Mannau lle na ddylid gwasgaru achles. O leiaf 10 metr ar naill ochr yr holl ffosydd a chyrsiau dŵr; 50 metr o amgylch tardellau, ffynhonnau a dyfrdyllau, llechweddau serth â risg uchel o oferiad drwy gydol y flwyddyn; ac Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif, neu dir arall sy'n rhwym wrth gytundebau rheoli.	amherthnasol	PEIDIWCH Â GWASGARU
Mannau â Risg Uchel (MELYN)	Caeau wrth ymyl cwrs dŵr, tardell neu ddyfrdwl a phridd hyd at derfyn y cae o ddŵr gyda llechwedd gymedrol neu bridd sy'n amsugno dŵr yn araf; lle mae dyfnder y pridd dros graig wedi hollti yn llai na 30cm; â draenau effeithiol.		Defnyddiwch drwy gydol y flwyddyn yn amodol ar gyflwr y tir, ond cyfyngwch ar y cyfraddau gwasgaru yn y gaeaf.
Mannau â Risg Uchel iawn (OREN)	Caeau yn debygol o ddiodef o lifogydd ryw adeg bron pob gaeaf; wrth ymyl cwrs dŵr, tardell neu ddyfrdwl lle cafodd y wyneb ei gywasgu'n ddifrifol neu sy'n llawn dŵr neu sydd â llechwedd serth a'r pridd hyd at derfyn y cae o ddŵr neu â llechwedd gymedrol a phridd sy'n amsugno dŵr yn araf.		Osgowch yn y gaeaf ac yn ystod haf sych pan fo'r pridd yn cracio cyn ised â'r draenau, neu pan fo'r pridd wedi'i gywasgu.
Mannau â Risg Isel (GWYRDD)	Pob man arall na chafodd ei farcio eisoes		Modd eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn.
<b>Cyfanswm yr Arwynebedd lle mae modd Gwasgaru:</b>			

Cam 3: Cymharwch yr arwynebedd sydd ar gael â faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu

Cyfrifwch yr arwynebedd sydd ei angen ar gyfer gwasgaru'r achles a gynhyrchir ar y fferm mewn blwyddyn, heb fynd dros y terfyn hau Cyfanswm Nitrogen o 250kg/ha. Mae'r canllawiau isod yn dangos hyn yn syml iawn.

## Cyfrifo'r Arwynebedd Lleiaf sydd ei Angen

	Nifer yr Unedau Stoc	Misoedd Dan Do	Hectarau sydd eu hangen ar Uned Stoc	Cyfanswm yr Arwynebedd sydd ei Angen (Ha)
<b>Buwch (650kg)</b>		X	X 0.039	=
<b>Buwch (550kg)</b>		X	X 0.032	=
<b>Buwch (450kg)</b>		X	X 0.025	=
<b>Heffer 2fl+ (500kg)</b>		X	X 0.019	=
<b>Stoc ifanc 1-2fl (400kg)</b>		X	X 0.016	=
<b>Stoc ifanc 6-12 mis</b>		X	X 0.008	=
<b>Llo</b>		X	X 0.005	=
<b>Tarw</b>		X	X 0.019	=
<b>Dafad</b>		X	X 0.003	=
<b>Oen (hyd at 6 mis)</b>		X	X 0.001	=
<b>Oen (6-12 mis)</b>		X	X 0.002	=
<b>Cyfanswm yr Arwynebedd Gofynnol:</b>				

Os yw **Cyfanswm yr Arwynebedd lle Gellir Gwasgaru** yn fwy na **Chyfanswm yr Arwynebedd sydd ei Angen** – mae'r cynllun yn gyflawn.

Os yw **Cyfanswm yr Arwynebedd lle Gellir Gwasgaru** yn llai na **Chyfanswm yr Arwynebedd sydd ei Angen** – mae angen cynllun arall neu gynllun manylach.

- Dangosodd profiad fod dilyn Cynllun Rheoli Achles yn lleihau'r risg o lygredd.
- Bydd cadw NPK ar gyfer tyfiant cnydau trwy leihau colledion yn arbed arian ar fil gwrtaithe cwodyn y fferm.
- Os yw cynhyrchwyr yn defnyddio contractwyr i wasgaru tail, bydd cael cynllun yn ffordd syml o roi gwybodaeth lawn iddynt drwy'r amser am beryglon llygredd ar y fferm.
- Bydd dilyn cynllun yn helpu cynhyrchwyr i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da er Diogelu Dŵr.
- Gall y bydd angen cynllun o'r fath os yw cynhyrchwyr yn bwriadu gwneud gwelliannau sy'n golygu storio slyri neu ddŵr brwnt am lai na phedwar mis.
- Mae cynllun yn darparu tystiolaeth fod gweithdrefnau effeithiol ar waith.

BI 1	Dyddiad:	Llofnodwyd:
BI 2	Adolygydd:	Llofnodwyd:
BI 3	Adolygydd:	Llofnodwyd:
BI 4	Adolygydd:	Llofnodwyd:





## Adran (11) Storio Gwrtaith yn Ddiogel – Rhestr Wirio Hunan-Asesu

		<b>Ie</b>	<b>Na</b>
1.	Gawsoch chi'ch gwrtaith gan gyflenwr wedi'i gymeradwyo gan Gynllun Gwarant y Diwydiant Gwrtaith (FIAS)?	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>
2.	A yw'ch gwrtaith yn cael ei storio i ffwrdd o fannau lle mae gan y cyhoedd fynediad?	Ydyw <input type="checkbox"/>	Nac ydyw <input type="checkbox"/>
3.	A wnaethoch yn siŵr nad yw'ch gwrtaith yn cael ei storio neu'n cael ei adael heb warchodaeth o fewn golwg i briffordd gyhoeddus?	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>
4.	A oes gennych restr gyfredol o'ch stoc gwrtaith?	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>
5.	A yw'ch rhestr yn cynnwys manylion am y math o wrtaith a brand y gwrtaith a gafodd ei ddsbarthu, storio a defnyddio?	Ydyw <input type="checkbox"/>	Nac ydyw <input type="checkbox"/>
6.	A oes gennych gofnod o rifau cod y gwneuthurwr?	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>
7.	A yw'ch gwrtaith yn cael ei storio mewn adeilad neu iard diogel? Neu A yw'ch gwrtaith yn cael ei storio â gorchudd llawn sy'n dangos a fu ymyrraeth?	Ydyw <input type="checkbox"/>	Nac ydyw <input type="checkbox"/>
8.	A oes gennych brotocol, sy'n hysbys i'r holl staff, sy'n rhoi manylion am y camau sydd raid eu cymryd os oes rhywun yn ymyrryd â'r gwrtaith wedi'i storio neu os oes gwrtaith yn cael ei ddwyn?	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>
9.	Pa mor aml fyddwch chi'n archwilio'ch cyflenwad gwrtaith er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn sylwi mor fuan ag y bo modd a oes rhywbeth o'i le? <i>(Ticiwch os yw'n briodol)</i>  Dyddiol <input type="checkbox"/> Wythnosol <input type="checkbox"/> Misol <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.	Os ydych chi'n storio 25 tonnell fetrig neu fwy o wrtaith, a ydych wedi rhoi gwybod i'ch swyddog tân lleol ac i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)? I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at SI 1990 Rhif 304 – Rheoliadau Sylweddau Peryglus (Hysbysu am Safleoedd a'u Marcio) 1990.	Ydwyf <input type="checkbox"/>	Nac ydwyf <input type="checkbox"/>
11.	Os ydych chi'n storio 150 tonnell fetrig neu fwy o amoniwm nitrad neu wrteithiau sy'n seiliedig ar amoniwm nitrad ac sy'n cynnwys dros 15.75% o nitrogen yn ôl pwysau, a ydych wedi rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch?	Ydwyf <input type="checkbox"/>	Nac ydwyf <input type="checkbox"/>

**(12) Rhestr Wirio Hunan-Asesu'r Chwistrellwr**

Gwneuthuriad y Chwistrellwr:

Model:

Dyddiad yr asesiad:

Enw'r person a wnaeth yr archwiliad:

Allwedd: Archwiliwyd/Cwblhawyd Angen Sylw Cymhwyswyd Amherthnasol

**Mecanyddol**

- A yw'r cysylltiad â'r tractor yn ddiogel?
- A yw'r ffrâm a'r adeiladwaith yn rhydd o graciau a rhwd?
- A yw'r olwynion a theiars mewn cyflwr da?
- A yw'r gardiau, gan gynnwys gard y siafft PTO yn ddiogel a heb ddifrod?

**Y system hydrologig, gan gynnwys y system dracio, os cafodd ei gosod**

- A ydyn nhw'n ddiogel rhag gollwng dan bwysedd?
- A yw'r pibellau a chysylltiadau wedi treulio neu wedi cracio?

**Y system drydan**

- A yw'r gwifrau heb ddifrod a'r holl gysylltiadau wedi'u hinswleiddio'n gywir?
- A yw'r holl oleuadau'n gweithio'n iawn?

**Y system niwmatig**

- A yw'r system yn ddiogel rhag gollwng wrth weithio dan bwysedd?

**Tanc y chwistrellwr**

- A yw'r clipiau'r tanc/ ffrâm yn ddiogel?
- Yn ddiogel rhag gollwng?
- A yw'r caead yn ffitio'n gywir ac yn ddiogel rhag gollwng?
- A yw'r mesurydd cynnwys yn hawdd ei ddarllen?

**Y Bwm**

- A yw'n cael ei ddal yn ddiogel ar ôl ei blygu i gael ei gludo?
- Pan fo ar agor, a yw'n syth a gwastad?
- A yw'r cymhwysydd uchder a'r hongiad yn gweithio'n iawn?
- A yw'r bwm yn dychwelyd i fod yn wastad wrth gael ei adleoli i'r chwith
- ac i'r dde?
- A yw'r darnau plygu nôl yn gweithio'n foddhaol?
- A yw'r mowntinau a'r dolennau yn ddiogel a heb dreulio?

**Linellau chwistrellu**

- A ydyn nhw'n ddiogel rhag gollwng dan bwysedd?
- Dim pibellau na darnau cyswllt wedi treulio neu gracio?
- A yw'r holl falfiau a hidlyddion mewn cyflwr da?

**Tyllau chwistrellu**

- A yw'r holl osodiadau a thyredau mewn cyflwr da?
- A yw'r holl dyllau chwistrellu yn wynebu'r cyfeiriad cywir?
- A yw'r holl falfiau rhwystro yn gweithio'n iawn?
- A yw'r patrwm chwistrellu/ dosbarthu yn ymddangos yn gywir?

**Cyfarpar rheoli a falfiau**

- A yw'r prif switshis cynnau/diffodd yn gweithio'n iawn?
- A yw'r holl switshis ar gyfer darnau gwahanol y bwm yn gweithio?
- Allwch chi ddarllen y mesuryddion pwysedd yn hawdd?
- A yw'r labeli'n briodol a hawdd eu darllen?
- A yw'r cymhwysydd pwysedd yn sefydlog?
- A yw'r mesurydd pwysedd yn dangos sero?

**Y system anwythiad cemegol**

- A yw'r system a'r cyfarpar rheoli yn gweithio'n iawn?
- A yw'r system yn ddiogel rhag gollwng dan bwysedd?
- A yw'r holl labeli'n briodol a darllenadwy?
- A yw'r system a'r cynhwysydd rinsio yn gweithio'n iawn?

**Y system tanc rinsio**

- A yw'r system yn gweithio'n iawn?

**Golchi'r tu allan**

- A yw'r system yn gweithio'n iawn?

**Personol**

- A yw'r tanc cyflenwi dŵr yn llawn?
- A yw'r locer dillad yn lân a'i gynnwys yn gyflawn?



